

Y Broses o Recriwtio Cwnstabiliaid Gwirfoddol

Noder y gall y cylch recriwtio gymryd peth amser i'w gwblhau. Ar ddiwedd pob cam o'r broses recriwtio a dethol, cewch eich hysbysu a ydych wedi bod yn llwyddiannus, ac felly yn gymwys, i symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio.

Cam 1: Llenwch y ffurflen gais ar-lein

Mae'r broses ymgeisio'n cynnwys tri maes:

1. Meini prawf cymhwysedd.
2. Prawf Crebwyll mewn Sefyllfa a Holiadur Arddull Ymddygiadol. Mae'n rhaid i chi lwyddo yn y ddau brawf hyn er mwyn parhau i'r broses gais.
3. Ffurflen gais. Disgwylir i chi nodi eich manylion personol. Gwnewch yn siŵr fod y ffurflen wedi'i chwblhau'n gywir.

Cyngor ar gyfer cwblhau'ch ffurflen gais

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen y gofynion ar gyfer pob cam yn drylwyr gan y bydd eich cais yn cael ei wrthod os na fyddwch chi'n llwyddo ym mhob adran.
- Os oes angen addasiadau rhesymol neu weithredu cadarnhaol arnoch, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ticio'r blychau perthnasol ar y ffurflen gais.
- Os ydych chi wedi byw mewn mwy nag un cyfeiriad yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, gwnewch yn siŵr fod yr holl wybodaeth hon gennych wrth law, gan gynnwys y dyddiadau fuoch chi'n byw yn y cyfeiriadau hynny.
- Os ydych chi wedi derbyn unrhyw euogfarnau neu rybuddion eraill, gwnewch yn siŵr fod yr holl wybodaeth hon gennych wrth law gan fod yn rhaid i chi ddatgelu'r wybodaeth hon.
- Os oes gennych datŵs amlwg (ar yr wyneb, y gwddf, y dwylo a'r elinau), tynnwch y ffotograffau gofynnol ymlaen llaw.
- Os oes gennych unrhyw dystysgrifau ariannol (methdaliad, cytundeb gwirfoddol unigol ac ati), dylech gael copïau o'r rhain yn barod i'w huwchlwytho.
- Wrth gwblhau'r profion ar-lein, gwnewch yn siŵr nad yw'r atalydd naidlenni ymlaen fel y bydd y sgrin brawf yn agor.
- Os fyddwch chi'n cael unrhyw broblemau, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r adran AD cyn gynted â phosibl. Mae'r swyddfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9y.b. tan 5y.h.

Cam 2: Os fyddwch chi'n llwyddiannus cam amgeisio, cewch eich gwahodd ar gyfer cyfweliad

Cynlluniwyd y broses gyfweled ar gyfer cael darlun mwy cyflawn ohonoch chi fel unigolyn. Mae'n archwilio sut y gallai eich gwerthoedd chi gyfateb â gwerthoedd Heddlu Dyfed-Powys. Drwy gynnal y cyfweliad hwn, rydym yn sicrhau eich bod chi'n dewis yr yrfa iawn, a bod gennych bob siawns o lwyddo fel cwnstabl gwirfoddol gyda Heddlu Dyfed-Powys.

Cam 3: Os fyddwch chi'n llwyddiannus adeg eich cyfweliad, cewch eich gwahodd ar gyfer Aseidiadau Biometrig a Ffitrwydd

Byddwch yn cael eich gwahodd i Bencadlys yr Heddlu er mwyn cwblhau prawf ffitrwydd ac aseidiadau biometrig.

1. Bydd y prawf ffitrwydd sy'n gysylltiedig â'r swydd yn asesu pa un ai a ydych chi'n medru bodloni heriau corfforol plismona. Cyn i chi sefyll y prawf ffitrwydd sy'n gysylltiedig â'r swydd, byddwn

ni'n eich atgoffa am gynnwys y prawf, ond dylech ddechrau paratoi ar gyfer y cam hwn cyn gynted ag y byddwch chi'n cyflwyno eich cais os nad ydych chi'n gorfforol ffit eto. Er nad oes angen i chi fod yn athletwr i basio'r prawf ffitrwydd sy'n gysylltiedig â'r swydd, mae angen lefel ffitrwydd sylfaenol arnoch.

2. Cynhelir asesiadau biometrig, ac mae'r rhain yn cynnwys samplau DNA, Olion Bysedd a phroffion cyffuriau a wneir gan gwmni allanol.

Cam 4: Cwblhau cliriad fetio diogelwch

Byddwch chi'n cwblhau ffurflenni yn ystod y broses recriwtio a dethol sy'n ymwneud â gwybodaeth fetio diogelwch, a bydd ein Hadrannau Safonau Proffesiynol yn cwblhau cliriad a gwiriadau.

Cam 5: Cwblhau gwiriadau geirda

Os fyddwch chi'n llwyddiannus ym mhob un o'r camau uchod, byddwn ni'n cysylltu â'ch canolwyr am eirida.

Cam 6: Cael prawf meddygol

Mae'r asesiad meddygol yn syml, a chynhelir archwiliadau golwg, clyw, pwysedd gwaed a màs y corff. Fe'u cynhelir gan nyrs gofrestrdedig ac ymgynghorydd meddygol yr heddlu. Mae'r asesiadau hyn yn ychwanegol i'r holiadur meddygol y bydd angen i chi lenwi yn ystod y broses recriwtio. Yr ymgeisydd fydd yn talu am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chael llofnod meddyg teulu a stamp practis.

** Gall hyn gymryd hyd at 8 wythnos neu fwy, gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol.*

Cam 7: Cwblhau gwiriadau geirdaon cyflogwr

Os fyddwch chi'n llwyddiannus ym mhob un o'r camau uchod, byddwn ni'n cysylltu â'ch cyflogwr cyfredol am eirida.

Cam 8: Cynnig dyddiad cychwyn ar gyfer Cwrs Hyfforddiant yr Heddlu (byddwn yn anelu at roi 1 mis o rybudd)

Unwaith y bydd yr holl ddogfennau perthnasol wedi cael eu clirio a'u prosesu, ac mae'r broses recriwtio a dethol wedi'i chwblhau, cewch lythyr ffurfiol yn cynnig swydd a dyddiad cychwyn i chi.

Cam 9: Ffitio Lifrai

Disgwylir i chi fynd i'r Pencadlys er mwyn ffitio lifrai a chwblhau pecynnau hyfforddi ar-lein cyn ymuno.